

Diwygio'r Canfas Blynyddol

Ymateb i'r ymgynghori ar
gynigion i ddiwygio'r
Canfas Blynyddol

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Ar 5 Hydref 2018 cafodd 'Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Canfas Blynyddol' ei gyhoeddi ar y cyd gan Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, gan ddod i ben ar 30 Tachwedd 2018.
- 1.2. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys cyfres o gynigion polisi ar y cyd cychwynnol ac yn gofyn cyfres o gwestiynau am fanylion y cynigion hyn ynghyd ag opsiynau diwygio eraill oedd ar gael.
- 1.3. Roedd y Datganiad Polisi Interim yn manylu ar y cynigion ac yn cynnig yn fras y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol (ERO) orfod cydweddu'r data a gedwir ganddynt am etholwyr cofrestredig â data'r Llywodraeth genedlaethol, a lle bo hynny'n berthnasol, â data lleol. Lle mae'r data sydd gan yr ERO ar etholwyr cofrestredig yn cydweddu â'r data mewn ffynhonnell ddata ddibynadwy a chywir arall, bydd yr ERO yna'n gallu bod yn eithaf ffyddiog bod y manylion ar eu cofrestr yn parhau i fod yn gywir. Byddai'r ERO yna'n dilyn un o ddau lwybr ar gyfer pob eiddo.
- 1.4. Byddai Llwybr 1 ar gyfer eiddo lle'r oedd y data'n awgrymu nad oedd unrhyw newid yng nghyfansoddiad yr aelwyd, a Llwybr 2 ar gyfer eiddo lle'r oedd y data a'r wybodaeth a gedwir gan yr ERO yn awgrymu y gallai fod newid i'r wybodaeth sydd gan yr ERO ar hyn o bryd am yr eiddo.
- 1.5. Cynigiwyd trydydd opsiwn, Llwybr 3, ar gyfer mathau o eiddo lle na fyddai Llwybrau 1 a 2 efallai'n addas ar eu cyfer. Mae nodweddion y mathau hyn o eiddo'n golygu y gallai'r ERO gael gafael ar wybodaeth am y preswylwyr yn fwy effeithiol ac effeithlon mewn ffordd arall, drwy adnabod 'person cyfrifol' i roi gwybodaeth am holl breswylwyr yr eiddo.
- 1.6. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid drwy'r ymgynghoriad, a'n hymateb ninnau. Rhoddir manylion y polisi terfynol ar ddiwygio canfasio yn y ddogfen gysylltiedig 'Diwygio'r Canfas Blynyddol: Datganiad Polisi' sydd hefyd wedi'i chyd-gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.
- 1.7. Yn ogystal, mae'n ofynnol i Swyddfa'r Cabinet ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol¹ (EC) a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth² (ICO) wrth gynnig newid unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol.
- 1.8. Mae'n ofynnol i'r EC ddarparu adroddiad yn asesu'r system bresennol, pa mor effeithiol yw'r cynigion ynghyd ag unrhyw ffyrdd eraill posib o gwrdd ag amcanion canfasio sef adnabod etholwyr cymwys y dylid eu hychwanegu at y gofrestr a dileu unrhyw rai sydd angen eu dileu o'r gofrestr.

¹ Yn unol ag Adran 8 Deddf Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol 2013, Adran 53(5) Deddf Cynrychiolaeth 1983 ac Adran 7(1) a (2)(e) Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

² Adran 53(5) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ('Deddf 1983') ac Erthygl 36(4) o'r GDPR

- 1.9. Roedd ymgynghoriad yr ICO yn canolbwyntio ar agweddau rhannu data a chydweddu'r cynigion. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion hyn yn adrannau 4 a 5.

2. Ymatebion i'r 'Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Canfas Blyneddol'

- 2.1. I gyd, cafwyd 83 o ymatebion gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol (ERO), unigolion gyda budd a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA) a'r EC. Dymunwn ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i ymateb i'n helpu i ddatblygu'r polisi.
- 2.2. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i gyd bron yn gadarnhaol gan adlewyrchu lefel uchel yr ymgysylltu gan randdeiliaid wrth ddatblygu'r cynigion polisi cychwynnol.
- 2.3. Ar sail profiadau'r prosiectau diwygio canfasio peilot yn 2016 a 2017, dros yr haf y llynedd (2018) cynhaliodd Swyddfa'r Cabinet gyfres o weithdai ar draws y wlad i gyflwyno swyddogion ERO a'u staff i'r cynigion newydd ac i holi eu barn am yr opsiynau oedd ar gael. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, roedden ni'n gallu ymgynghori ar bolisi drafft sydd eisoes, i raddau, wedi'i 'brofi gan y defnyddiwr'.

3. Crynodeb o'r ymatebion a'r cynigion polisi terfynol

- 3.1. Roedd y ddogfen ymgynghori'n holi barn am 18 o gwestiynau gwahanol. Dangosir pob cwestiwn isod gyda chanran gyffredinol yr ymatebion negyddol / cadarnhaol a phrif bwyntiau'r ymatebwr o danynt.

C1: Cynigiwn fod y broses o gydweddu â data cenedlaethol yn cael ei gwneud yn orfodol, a chydweddu â data lleol yn cael ei wneud yn ôl disgrisiwn yr ERO. Ydych chi'n cytuno gyda hyn? YDW / NAC YDW. Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Option	Total	Percent
Yes	72	86.75%
No	3	3.61%
Not Answered	8	9.64%

Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Mae cydweddu â data cenedlaethol wedi gweithio'n dda wrth bontio at Gofrestru Etholiadol Unigol (IER).
- Mae 'galluogrwydd' data ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn amrywio, felly byddai'n briodol rhoi disgrisiwn i swyddogion ERO.


- Mae swyddogion ERO yn ymwybodol o'r dulliau sy'n gweithio orau yn eu hardaloedd wrth ganfasio felly byddai rhoi rhywfaint o ddewis yn adlewyrchu hyn yn briodol.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Teimlai rhai o'r ymatebion y dylai cydweddu â data lleol fod yn orfodol oherwydd ei fod yn helpu i wella cywirdeb y gofrestr.
- Nid yw rhai swyddogion ERO yn gwbl ffyddiog bod data'r DWP yn gywir ac felly'n credu y dylai cydweddu â data lleol fod yn orfodol er mwyn ystyried hyn.

Roedd dros 95% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn ac o ystyried y dystiolaeth beilot ar ddefnyddio a pha mor ddibynadwy yw data lleol, penderfynwyd cadw'r cynnig gwreiddiol. Bydd cydweddu â data lleol yn parhau i fod ar gael i swyddogion ERO, fel bod ganddynt gymaint o hyblygrwydd â phosib. Bydd cyngor cynhwysfawr i swyddogion ERO ar y broses, a pha ffynonellau data sy'n briodol, yn cael ei roi yn y canllawiau a byddwn yn gweithio'n agos â'r EC ar hyn.

C2: Cynigiwn fod yn rhaid trosi unrhyw eiddo gydag etholwr coch yn eiddo coch. Bydd eiddo ond yn wyrdd os yw 100% o'r etholwyr unigol yn yr eiddo yn wyrdd. Ydych chi'n cytuno gyda hyn?



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Mae etholwr coch yn awgrymu bod newid efallai wedi bod i gyfansoddiad yr aelwyd.
- Bydd adnabod pa aelwydydd sydd yn cydweddu neu beidio'n golygu bod swyddogion ERO yn gallu canolbwyntio ar eiddo lle mae cyfansoddiad yr aelwyd efallai wedi newid.
- Mae angen i ERO fod yn fodlon bod yr holl breswylwyr cymwys wedi eu cynnwys ar y gofrestr ac felly dylai unrhyw awgrym fel arall ysgogi cyfathrebiad sydd angen ymateb iddo.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y categori 'oren' a ddefnyddiwyd gyda'r IER lle'r oedd etholwyr yn cydweddu gyda pheth o'r wybodaeth. Roedd swyddogion ERO yna'n gallu ceisio defnyddio ffynonellau data eraill i droi'r etholwyr hyn yn rhai cydweddol. Roedden nhw'n gofyn am yr un opsiwn ar gyfer y broses cydweddu data newydd.
- Lleisiwyd pryderon na fyddai'r broses sydd mewn golwg yn adnabod rhai grwpiau, fel rhai newydd gyrraedd oed pleidleisio neu bobl newydd gyrraedd y DU.
- Gofynnodd rai am roi disgrisiwn i swyddogion ERO i droi aelwydydd o rai anghydweddol i rai cydweddol, yn defnyddio eu ffynonellau data eu hunain.

Ar ôl cael adborth gan randdeiliaid, mae'r iaith wedi'i newid i gyfeirio at etholwyr fel cydweddol neu anghydweiddol, yn hytrach na gwyrdd am y naill a choch am y llall, i osgoi unrhyw ddryswch â phroses ddilysu'r IER. Defnyddir yr un iaith gyda'r eiddo yn ogystal â'r etholwr.

Etholwr cydweddol yw un sydd wedi ei gydweddu'n llwyddiannus â data lleol neu genedlaethol, ac etholwr anghydweiddol yw un *sydd heb* ei gydweddu'n llwyddiannus â data lleol neu genedlaethol. Cynigiwn y dylai presenoldeb etholwr anghydweiddol mewn eiddo droi'r holl eiddo'n un anghydweiddol, oherwydd gallai hyn awgrymu newid ehangach i gyfansoddiad yr aelwyd yn yr eiddo hwnnw.

Gyda chefnogaeth dros 87% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, bydd y ddeddfwriaeth yn defnyddio trothwy o 100%. Rydyn ni wedi cynnwys darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddrafft fel bod ERO yn gallu anfon eiddo i lawr Llwybr 2 hyd yn oed os yw'r broses gydweddu'n cydweddu pob etholwr unigol yn yr eiddo hwnnw'n llwyddiannus.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn orfodol cael safon ofynnol ar gyfer cywirdeb data lleol? YDW / NAC YDW. Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Option	Total	Percent
Yes	55	66.27%
No	15	18.07%
Not Answered	13	15.66%

Themâu'r ymatebion cadarnhaol:


- Rhaid i ERO gael peth sicrwydd bod cywirdeb y data a ddefnyddir yn ddibynadwy.
- Mae data lleol yn ddefnyddiol dim ond os oes gan ERO sicrwydd ei fod yn gywir.
- Dylai grwpiau a sefydliadau sy'n defnyddio'r gofrestr fod yn ffyddiog bod safonau gofynnol yn eu lle.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Teimlai swyddogion ERO y dylai fod ganddynt ddisgresiwn ynghylch pa setiau data i'w defnyddio; ni fyddai defnyddio rhai heb fod yn gywir neu heb eu diweddarau o fudd iddynt.
- Mae'n anodd gweld sut y gellid cytuno â'r safon ac yna mesur y safon.
- Gallai problemau godi gyda phrofi safon setiau data lleol fel treth cyngor neu ddata tai – gallai brofi i fod yn ddadleuol.

Teimlai 78% o'r ymatebwyr fod cael safon ofynnol yn bwysig. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau helaeth pellach â rhanddeiliaid, penderfynwyd y byddai rhagnodi safon ofynnol yn debygol o fod yn fypwyl ac anodd i'w diffinio yn y ddeddfwriaeth. Teimlwyd hefyd y byddai hynny'n gwrthdaro â'r egwyddor gyffredinol o ddiwygio canfasio sef bod angen i brosesau newydd, lle bynnag bosib, fod mor hyblyg â phosib i swyddogion ERO. Fodd bynnag, bydd Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi canllawiau atodol ar beth ddylai swyddogion ERO ei ystyried wrth benderfynu a yw ffynonellau data lleol o safon ddigon cywir neu beidio.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylid anfon eiddo Gwag drwy broses cydweddu data? YDW / NAC YDW. Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:


- Bydd y cynnig yn arbed gwaith papur diangen.
- Yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol gwledig, ardaloedd gydag ail gartrefi a rhai gyda phoblogaethau mawr eraill o etholwyr anghymwys, fel canolfannau milwrol Americanaidd.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Ni chafwyd unrhyw ymateb negyddol.

Roedd 100% o'r rhai a atebodd yn cytuno y dylai eiddo gwag fynd drwy'r broses cydweddu data. Oherwydd mai setiau data lleol fyddai'r rhai mwyaf priodol ar gyfer adnabod y tai gwag hyn, mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyn.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai ceisiadau diweddar i gofrestru gael eu heithrio o'r broses ddata a'u marcio'n wyrdd yn awtomatig? YDW / NAC YDW. Os Ydw oedd eich ateb, pa gyfnod y dylid ei ddiffinio fel 'diweddar' (1 mis, 2 fis, cysylltu i'r diweddariad misol diwethaf? ayyb). Eglurwch os gwelwch yn dda. Os Nac Ydw oedd eich ateb, eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Dywedodd ymatebwyr a ddiffiniodd 'diweddar' fel hyd at dri mis fod etholwyr yn aml yn cwyno am gael ffurflen ganfasio'n fuan ar ôl cofrestru i bleidleisio.


- Un o'r rhesymau gan rai a ddiffiniodd 'diweddar' fel dau fis oedd y gall gymryd hyd at 6 wythnos i ychwanegu etholwr i'r gofrestr.
- Teimlai'r rhan fwyaf a ddywedodd 'mis' y dylid ei gysylltu i'r diweddariad diwethaf o'r gofrestr.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Nid yw un cais diweddar o reidrwydd yn awgrymu nad oes newid arall wedi bod i'r aelwyd ac ni ddylai olygu bod yr aelwyd yn un sy'n cydweddu'n llwyr.

Roedd bron i 85% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i eithrio ychwanegiadau diweddar i'r gofrestr o'r broses cydweddu data. Nid oedd consensws cryf ynghylch pa gyfnod y dylid ei ystyried i fod yn 'ddiweddar'. Felly mae'r polisi terfynol yn caniatáu (ond heb wneud hynny'n ofynnol) i swyddogion ERO eithrio ychwanegiadau diweddar o'r broses cydweddu data os cawsant eu penderfynu'n llwyddiannus o fewn uchafswm o 90 diwrnod cyn i'r ERO ddechrau ei ganfas. Fodd bynnag, bydd gan swyddogion ERO hefyd ddisgresiwn i ddewis uchafswm o rywle hyd at 90 diwrnod os ydynt yn teimlo bod yr uchafswm yn rhy hir yn eu hardal hwy. Gall swyddogion ERO hefyd ddewis cynnwys ychwanegiadau diweddar yn y broses cydweddu data drwy osod uchafswm o 0 diwrnod.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno na ddylid mwyach cynnwys blwch ticio meddiannaeth unigol ar ffurflenni cais cofrestru? YDW / NAC YDW. Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:


- Byddai'n arwain at lawer iawn o ddryswch i etholwyr.
- Byddai'n creu tasg ychwanegol heb arbedion cost cysylltiedig.
- Mae'r wybodaeth mor aml yn annibynadwy, nid yw'n cael ei defnyddio mwyach.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Gallai newid y geiriad wella'r canlyniadau.
- O'i ddefnyddio ar y cyd â data lleol arall fel treth cyngor, gellid chwynnu camgymeriadau.

Roedd dros 86% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn cytuno y dylid tynnu'r blwch ticio meddiannaeth unigol o'r ffurflenni. Mae hyn nawr yn rhan o'n polisi terfynol a bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio i adlewyrchu hynny.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu cyswllt e-bost fel y dull cysylltu cyntaf ar gyfer aelwydydd Llwybr 1 (lle mae cyfeiriad e-bost ar gael), yna cyswllt papur os nad oes ymateb? YDW / NAC YDW. Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Option	Total	Percent
Yes	68	81.93%
No	4	4.82%
Not Answered	11	13.25%

Themâu'r ymatebion cadarnhaol:


- Ffordd hwylus o symud at ddarparu mwy o wasanaethau digidol ac annog pobl i 'newid eu dull cyswllt'.
- Dull cyflym ac effeithlon o gadarnhau etholwyr.
- Yn gallu cyfrannu at lai o argraffu papur a chostau is.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Gall negeseuon e-bost fod yn anniogel ac nid o reidrwydd yn gyfrinachol.
- Nid ydynt bob tro'n cyrraedd y person mwyaf priodol.
- Gellir cael ymatebion gwahanol gan etholwyr yn yr eiddo.
- Nid yw etholwyr yn ymateb yn dda i negeseuon e-bost digymell.

Roedd dros 94% o'r rhai a atebodd y cwestiwn yn cytuno lle'r oedd manylion cyswllt priodol ar gael, y dylid caniatáu cyswllt e-bost fel y cyswllt cyntaf o dan broses Llwybr 1. Fodd bynnag, oherwydd nad yw e-bost o reidrwydd wedi'i gysylltu i'r eiddo, bydd y ddeddfwriaeth yn nodi'n glir y dylid ond anfon e-bost at etholwr sydd wedi'i gadarnhau ar gyfer eiddo drwy'r broses cydweddu data. Bydd hefyd angen ymateb i gyswllt e-bost. Os nad yw'r e-bost yn cael ateb, bydd angen i'r ERO wedyn anfon cyfathrebiad papur i'r eiddo ac ni fydd angen ymateb i'r cyfathrebiad hwn os nad oes newid i'w adrodd.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 1? YDW / NAC YDW. Eglurwch pam os gwelwch yn dda.



Option	Total	Percent
Yes	70	84.34%
No	4	4.82%
Not Answered	9	10.84%

Themâu'r ymatebion cadarnhaol:


- Bydd rhoi cyfle i ymateb yn ddi-bapur yn arbed amser a chostau.
- Bydd swyddogion ERO gyda phoblogaethau sefydlog yn gallu lleihau eu llwyth gwaith yn sylweddol.
- Bydd mwy o amser i ganolbwyntio ar ardaloedd cyfnewidiol.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Roedd llawer yn debyg i themâu cwestiwn 7 ac yn ymwneud â diogelwch a dibynadwyedd negeseuon e-bost.
- Am weld opsiwn i anfon nifer o negeseuon e-bost atgoffa.

Roedd bron i 95% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynigion ac mae'r polisi terfynol yn adlewyrchu hyn. Mae Llwybr 1 yn caniatáu ar gyfer cyfathrebu'n gyntaf drwy e-bost mewn ymateb i geisiadau gan swyddogion ERO sydd eisoes yn cyfathrebu'n helaeth drwy e-bost. Os na ddaw ateb, bydd yr ERO yna'n anfon cyfathrebiad papur at aelwydydd Llwybr 1 a elwir bellach yn Gyfathrebiad Canfas A. Ni fydd yn gyfreithiol ofynnol i'r cyfathrebiad hwn gynnwys 'amlen barod gyda'r post wedi'i dalu' fel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni fydd y ddeddfwriaeth yn atal hyn os ydynt yn dymuno.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio ôl-gamau gorfodol (cysylltu i atgoffa ac ymweld â'r cartref, ayyb) gydag aelwydydd Llwybr 1? YDW / NAC YDW. Eglurwch pam os gwelwch yn dda.



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Mae'n rhesymol cymryd nad oes unrhyw newid wedi bod ar ôl cwblhau'r broses cydweddu data.
- Bydd swyddogion ERO yna'n gallu arbed amser ac adnoddau i'w gwario ar eiddo sy'n debygol o fod wedi newid eu cyfansoddiad.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Os nad oes ymateb boddhaol, dylai fod yn gyfreithiol orfodol bod swyddogion ERO yn cymryd ôl-gamau.
- Mae perygl y gallai hyn arwain at sefyllfa lle byddai'r gofrestr yn llai cyflawn a chywir.

Roedd 96% o'r rhai a atebodd yn cytuno â'r cynnig ac adlewyrchir hyn yn y ddeddfwriaeth ddrafft.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer Llwybr 2? YDW / NAC YDW. Eglurwch pam os gwelwch yn dda.



Option	Total	Percent
Yes	64	77.11%
No	11	13.25%
Not Answered	8	9.64%

Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Mae argaeledd dulliau eraill o gysylltu i'w groesawu'n fawr, a hefyd bod gan yr ERO ddisgresiwn i dargedu adnoddau'n fwy priodol.
- Mae angen canfasio aelwydydd sydd efallai wedi newid yn effeithiol a bydd y canfas arfaethedig yn sicrhau hyn.
- Proses ganfasio gadarn sydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i swyddogion ERO.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Yn dal i gynnwys gormod o gamau atgoffa, cwtogi i'r ffurflen gyntaf a chyswllt personol.
- Mae'r cyswllt papur cyntaf yn cyfyngu'n ormodol, dylai'r ERO fod yn gallu dewis y dull cysylltu a phryd i gysylltu.
- Tynnu'r cyswllt personol oherwydd mae'n ddud ac yn aml yn ddiymateb.

Roedd dros 85% o'r rhai a atebodd yn cytuno â'r cynigion Llwybr 2 fel y cawsant eu disgrifio yn yr ymgynghoriad. Y bwriad yn wreiddiol oedd mai'r cyswllt cyntaf ar gyfer Llwybr 2 fyddai HEF (Ffurflen Ymholiad Aelwyd, fel gyda'r canfas presennol) sydd angen ymateb. Yna i ddilyn byddai dau gyswllt gorfodol pellach, ac un ymweliad personol. Fodd bynnag, o ystyried rhai o'r risgiau a chyfleoedd a amlygwyd drwy'r ymgynghoriad a mewnbwn ychwanegol gan randdeiliaid, mae'r cynigion wedi eu datblygu ymhellach.


Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft bellach yn nodi:

- Rhaid i'r cyswllt cyntaf fynd i'r eiddo naill ai drwy gyfathrebiad papur (ffurflen ganfasio ragnodedig neu Gyfathrebiad Canfas B) neu drwy ymweld â'r cartref.
- Mae'r cylch 'ymlid' yn cynnwys tri cham cyswllt gorfodol a rhaid i ddau fod i'r eiddo (ymweld â'r cartref neu gyfathrebiad ysgrifenedig).
- Gall yr ymdrech i gysylltu fod drwy anfon cyfathrebiad papur, gwneud galwad ffôn, anfon neges e-bost, ymweliad personol neu fath arall o gyfathrebiad electronig.
- Rhaid i'r cylch llawn gynnwys bod ffurflen ganfas papur ragnodedig, gydag amlen barod, yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad ar ryw bwynt yn y cylch.
- Rhaid i'r cylch llawn gynnwys cyswllt personol, ymweld â'r cartref neu alwad ffôn, o leiaf unwaith.

Fel ar hyn o bryd, gall yr ERO gau'r cylch ymlid dim ond ar ôl cael ymateb neu ar ôl cwblhau pob un o'r tri cham cysylltu.

Bydd canllawiau ar y dulliau cysylltu eraill sydd ar gael (e-bost, tecstio, ffonio ayyb) ac ar y cyfuniadau priodol a derbynol o gysylltu, yn cael eu cyhoeddi maes o law a byddwn yn gweithio'n agos â'r EC ar hyn.

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylai cyswllt personol (cnocio ar y drws neu alwad ffôn) fod yn rhan orfodol o'r canfas diwygiedig? YDW / NAC YDW. Eglurwch pam os gwelwch yn dda.



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Mae ymweliad personol yn bwysig i rai na allant ateb yn ysgrifenedig.
- Mae cyswllt personol yn well am gael ymateb lle cymerir bod newid yng nghyfansoddiad yr aelwyd wedi bod.
- Mae'n amddiffyniad pwysig rhag etholwyr nad ydynt efallai'n ymateb ac yn sicrhau proses ganfasio drylwyr.

Themâu'r ymatebion negyddol:

- Gall cyfraddau ymateb fod yn isel ac mae'n ffordd ddrud o ganfasio.
- Gall fod yn anodd recriwtio canfaswyr ac mae pryderon diogelwch wedi eu codi.

Roedd dros 75% o'r rhai a atebodd yn cytuno â'r cynnig hwn a'r polisi felly yw bod cyswllt personol yn aros yn rhan orfodol o'r canfas. Gall y cyswllt personol naill ai fod yn ymweld â'r cartref neu'n alwad ffôn.

Cwestiwn 12: A oes mathau o eiddo ar wahân i'r rhai a ddisgrifir uchod a ddylai, yn eich barn chi, gael eu cyfeirio at Lwybr 3? Nodwch ba rai ac eglurwch eich rhesymau.

Y mathau o eiddo a restrwyd yn y cwestiwn oedd Tai Amlfeddiannaeth (HMO), cartrefi gofal a neuaddau preswyl myfyrwyr.

Cafodd y mathau canlynol o eiddo hefyd eu rhestru gan ymatebwyr:

- Llochesau Merched
- Cartrefi Nyrsio
- Unedau byw lled-annibynnol (tai hanner ffordd)
- Hosteli
- Canolfannau encilio crefyddol

- Safleoedd cartrefi symudol
- Barics y lluoedd arfog
- Marinas
- Tai gwledig anghysbell iawn
- Eiddo gyda gathiau o'u hamgylch
- Eiddo gyda pherchnogion tramor neu absennol

Roedd y rhesymau'n cynnwys:

- Pryderon diogelwch i ganfaswyr yn gweithio mewn ardaloedd anghysbell neu wledig.
- Mae gan y tai hyn drosiant preswylwyr uchel iawn yn aml sy'n golygu ei bod yn anodd eu canfasio drwy'r broses arferol.
- Gallai un pwynt cyswllt ei gwneud yn haws cyflawni canfas cynhyrchiol.
- Mae swyddogion ERO yn adnabod eu hardal a sut orau i ganfasio rhai mathau o eiddo, gyda pherthynas dda wedi ei chreu dros amser sy'n gallu bod yn effeithiol iawn i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Yn lle bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys rhestr hirfaith o'r mathau o eiddo a fyddai'n gymwys, rydyn ni wedi dewis dull Llwybr 3 drwy gynnwys rhestr anghyflawn a diffiniad o'r math o eiddo a fyddai'n gymwys. Bydd swyddogion ERO yna'n gallu defnyddio eu profiad i benderfynu sut orau i ganfasio'r eiddo hyn.

Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft hefyd yn rhoi'r opsiwn i'r ERO ddynodi eiddo preswyl aml-aelwyd neu eiddo y ceisiodd yr ERO gysylltu â nhw yn y 18 mis blaenorol, ond yn ofer, yn aelwyd Llwybr 3 os yw'r ERO yn credu bod Llwybr 3 yn cynnig gwell siawns o gasglu'r wybodaeth angenrheidiol.

Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn eithrio blociau o fflatiau arferol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod. Bydd manylion clir am sut i gyflawni canfas Llwybr 3, a phryd i droi'n ôl at Llwybr 2, yn y canllawiau. Rhoddir y polisi llawn yn y Datganiad Polisi a gyhoeddir gyda'r ymateb hwn.

Cwestiwn 13: Ydych chi'n credu mai dyma'r broses gywir i ddelio gyda'r eiddo hyn? YDW / NAC YDW. Os Nac Ydw, a allwch awgrymu ffordd arall?



Option	Total	Percent
Yes	62	74.70%
No	8	9.64%
Not Answered	13	15.66%

Themâu'r ymatebion cadarnhaol:


- Rhaid parhau i roi disgrisiwn i'r ERO.
- Dylai dynodiad y Swyddog Cyfrifol aros yn ddigon hyblyg fel bod swyddogion ERO yn gallu gofyn i'r person iawn gasglu'r wybodaeth angenrheidiol.

Themâu'r ymatebion negyddol ac awgrymiadau eraill:

- Gallai cynnwys eiddo HMO fod yn anodd oherwydd ni ellir dibynnu ar landlordiaid i rannu enwau eu tenantiaid.
- Mae'r system bresennol o ffurflenni papur a chanfaswyr yn gweithio'n dda a dylai barhau.
- Mae angen deddfwriaeth i gefnogi'r cais am wybodaeth.

Roedd bron i 89% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynigion ac adlewyrchir hyn yn y ddeddfwriaeth ddrafft. Bydd y broses yn ddewisol i'r ERO. Os ydynt am ddilyn y llwybr hwn, bydd angen iddynt yn gyntaf lunio rhestr o eiddo priodol a phenderfynu pa rai fydd yn cael eu heithrio neu beidio o'r cam cydweddu data. Bydd yna'n rhaid i'r ERO adnabod unrhyw unigolyn, cwmni neu sefydliad arall sy'n gyfrifol am yr eiddo ac sy'n dal gwybodaeth yn gyfreithlon am breswylwyr yr eiddo a mynnu'n gyfreithiol, drwy ddefnyddio pŵer Rheoliad 23 yr ERO³, eu bod yn cyflwyno rhestr o'r holl breswylwyr presennol. Os nad yw'r ERO yn gallu adnabod person o'r fath, dylid anfon yr eiddo i lawr Llwybr 2.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n credu mai anfon yr eiddo hyn i lawr Llwybr 2, sef y canfas llawn, os nad yw'r ERO yn gallu casglu data, yw'r opsiwn cywir ar gyfer yr eiddo hyn? YDW / NAC YDW. Eglurwch eich rhesymau os gwelwch yn dda.



Themâu'r ymatebion cadarnhaol:

- Bydd yn amddiffyniad da i sicrhau na chollir unrhyw etholwyr drwy beidio â gallu cysylltu ag unrhyw eiddo.
- Bydd yn sicrhau bod preswylwyr yr eiddo'n cael cyfle i ymateb a chyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.


Themâu'r ymatebion negyddol:

- Mae gorfodi swyddogion ERO i ddisgyn yn ôl ar Lwybr 2 yn wrthgynhyrchiol oherwydd maen nhw eisoes yn gwybod nad yw'n ffordd effeithiol o gasglu'r wybodaeth gywir ac felly'n wastraff o adnoddau.
- Dylai'r ddeddfwriaeth roi dyletswydd benodol ar swyddogion cyfrifol, ar yr amod nad yw unrhyw gamau gorfodi am beidio â chydymffurfio'n ormod o faich ar swyddogion ERO.

³ Rheoliad 23 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001


Roedd bron i 70% o'r rhai a atebodd yn cytuno y dylid anfon yr eiddo hyn i lawr Llwybr 2. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn rhagnodi, lle nad yw'n bosib i'r ERO gael gafael ar restr o breswylwyr cymwys o fewn cyfnod y canfas, bod yn rhaid i swyddogion ERO droi'n ôl at broses Llwybr 2.

Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys darpar etholwyr / etholwyr potensial yn y broses cydweddu data a'r cyfathrebiad canfasio?



Option	Total	Percent
Yes	47	56.63%
No	25	30.12%
Not Answered	11	13.25%

Os YDW, ydych chi'n meddwl bod unrhyw risg wrth wneud hyn?



Option	Total	Percent
Yes	32	38.55%
No	16	19.28%
Not Answered	35	42.17%

Roedd bron i 76% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i gynnwys darpar etholwyr / etholwyr posib yn y broses cydweddu data a'r cyfathrebiad canfasio. Ymhlith eu rhesymau oedd:

- Gallai helpu i gadw'r cofrestru mor ddiweddar â phosib; a
- Byddai ffurflenni clir wedi eu dylunio'n dda yn sicrhau bod etholwyr yn deall y cwestiynau gan helpu i wella cyfraddau ymateb.

Fodd bynnag, rhestrodd ymatebwyr hefyd rai risgiau a fyddai'n gysylltiedig â hyn. Roeddent yn cynnwys:

- Potensial aruthrol i ddrysu etholwyr os ydynt yn cael eu cynnwys ar gyfathrebiad canfas oherwydd gallant feddwl eu bod eisoes wedi cofrestru.
- Gallai eu cynnwys yn y broses cydweddu data gyflwyno'r risg bod eiddo'n cael ei gydweddu'n anghywir gan arwain at ddilyn y Llwybr anghywir.

Os NAC YDW, eglurwch pam os gwelwch yn dda:

Dywedodd y rhai oedd yn anghytuno y bydd darpar etholwyr / etholwyr posib eisoes wedi gwneud cais i gofrestru ac y byddai'n wastraff o amser ac ymdrech ceisio ail-gychwyn y cylch drwy'r broses cydweddu data. Teimlai ymatebwyr fod hyn hefyd yn debygol o ddrysu etholwyr.

Yn y diwedd, gyda dim ond un o bob tri o'r rhai a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn yn teimlo nad oedd risg ynghlwm wrth y cynigion, penderfynwyd na ddylid cynnwys darpar etholwyr / etholwyr posib yn y broses ddata ar y pwynt hwn. Yn hytrach, mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn nodi y dylid eithrio darpar etholwyr o'r broses cydweddu data a'u hadnabod yn awtomatig ar Systemau Rheoli Etholiadol (EMS) swyddogion ERO fel etholwyr wedi eu cydweddu.

Ni fydd etholwyr heb gofrestru ('etholwyr posib') yn cael eu cynnwys yn y broses cydweddu data na chwaith ar gyfathrebiadau canfas. Mae etholwyr posib yn unigolion y mae'r ERO wedi eu hadnabod i fod yn bobl a allai fod mewn eiddo ond nad ydynt eto wedi gwneud cais llwyddiannus. Daethom i'r casgliad y byddai cynnwys etholwyr posib yn y broses cydweddu data'n anymarferol oherwydd tarddiad anhysbys ac ansawdd y ffynonellau data i'w hadnabod, a'r effaith anfwriadol y gallai hyn ei gael ar gyfraddau cydweddu'r DWP.

Cwestiwn 16: Beth yn eich barn chi yw'r problemau gyda'r ffurflen HEF bresennol?

Dyma rai o'r atebion:

- Drysu etholwyr – mae pobl yn credu eu bod wedi cofrestru ar ôl llenwi eu manylion ar HEF heb sylweddoli mai dyma ran gyntaf proses dau gam, a bod angen llenwi ITR wedyn er mwyn cwblhau'r broses gofrestru.
- Y ffurflen yn rhy fawr gyda gormod o wybodaeth. Ar hyn o bryd mae'n A3 ond byddai A4 yn haws ar gyfer y canfas personol ac i'r person sy'n llenwi'r ffurflen, ac yn sicr i'r ERO sy'n eu prosesu.
- Mae dau ddyluniad ar gyfer y HEF – gwag neu wedi'i hanner-lenwi. Gwyddom fod rhai swyddogion ERO ond yn defnyddio un templed gyda ffurflenni gwag ac wedi eu hanner-lenwi. Dylid ystyried a fyddai'n bosib cael dim ond un dyluniad.
- Mae gormod o wybodaeth ar dudalen 1 a thystiolaeth nad yw preswylwyr yn darllen y llythyr sy'n dod gyda'r ffurflen.

Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i gyfuno gyda'r ymateb i gwestiwn 17 isod.

Cwestiwn 17: A oes unrhyw wybodaeth y gellid ei thynnu allan o'r ffurflen HEF?

Dyma rai o'r ymatebion:

- Lleihau nifer y llinellau ar gyfer ychwanegu enwau.
- Nid oes raid i ffurflen HEF wedi'i hanner-lenwi gynnwys trefniadau pleidlais bost.
- Nid oes raid cynnwys y wybodaeth pleidlais bost ar ddiwedd y ffurflen HEF oherwydd bydd hynny ar yr ITR.
- Lleihau nifer y geiriau ar dudalen 1 (y llythyr).
- Dylid ailystyried y gair dewisol (*optional*) yn y manylion cyswllt. Bydden ni'n cynghori bod angen ystyried sut y mae'r wefan cofrestru i bleidleisio wedi newid i annog pobl i roi eu manylion cyswllt.

Bydd y canfas blynyddol diwygiedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i swyddogion ERO o ran ba sianeli cyfathrebu i'w defnyddio, gan gynnwys anfon cyfathrebiadau ysgrifenedig i eiddo. Er mai'r bwriad yw cyflwyno mwy o hyblygrwydd ac arloesi i'r broses ganfasio, dangosodd y prosiectau canfasio peilot yn 2016 a 2017, heb elfen o reolaeth ganolog, y byddai ansawdd y cyfathrebiadau a ddefnyddir gan swyddogion ERO a'r ymatebion newid cyfansoddiad a gasglwyd drwy'r canfas, yn debygol o amrywio'n fawr iawn.

Felly mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r EC ddylunio Cyfathrebiad Canfas A papur (fel rhan o Lwybr 1), Ffurflen Ganfas bapur a Chyfathrebiad Canfas B papur (ar gyfer Llwybr 2). Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn gwneud i ffwrdd â pheth o'r rhagnodi blaenorol oedd yn ofynnol gyda'r cyfathrebiadau hyn, er mwyn ateb rhai o'r pryderon a leisiwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn rhannu'r ymatebion llawn i'r uchod gyda'r EC fel y medrant eu hystyried fel rhan o'r broses hon ac yn gweithio gyda nhw i geisio sicrhau ffurflen o ddyluniad da.

Gallai'r EC hefyd roi cyngor ar ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, cynnwys, negeseuo, ac ar gyfer cyfathrebiadau rhagnodedig, ar ddylunio dulliau cyfathrebu ar gyfer y canfas. Fel ar hyn o bryd, rhaid i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet gadarnhau'r cyfathrebiadau rhagnodedig hyn.

Cwestiwn 18: A oes unrhyw adborth pellach yr hoffech ei roi ar y model newydd sydd mewn golwg ar gyfer y canfas blynyddol, na chafodd sylw eisoes mewn cwestiwn arall?

Dyma rai o'r ymatebion:

- Ceisiadau i ymestyn cyhoeddi'r diweddariad misol i fis Hydref a Thachwedd.
- Gwneud i ffwrdd â'r amlen barod i annog pobl i 'newid sianel'.
- Newid dyddiad cyhoeddi 1 Rhagfyr.
- Sicrhau y rhoddir hysbys eang i unrhyw newidiadau fel bo'r cyhoedd yn ogystal â'r gymuned etholiadol yn ymwybodol ohonynt.
- Bydd cysylltu'n gynnar â chyflenwyr EMS yn hanfodol, da chi cofiwch sicrhau nad ydynt yn defnyddio hyn fel esgus i godi mwy am eu gwasanaethau.
- Mae nifer o swyddogion ERO wedi gofyn am gael profi'r broses cyn iddi fynd yn fyw gan gyfeirio at bractis cadarnhau sych (CDR) a phractis cadarnhau byw (CLR) fel enghreifftiau da.
- Mae nifer o swyddogion ERO wedi gofyn i'r cymorth a'r hyfforddiant iawn fod yn ei le mewn da bryd.
- Cafodd rhifau UPRN a'u diffyg ar draws cofrestru ei godi fel pryder difrifol.

Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu dadansoddi'n ofalus. Lle mae'r sylwadau'n ymwneud â gweithredu'r Diwygiadau i'r Canfas, mae'r rhain wedi eu hystyried yn y cynlluniau gweithredu. Lle mae'r sylwadau'n ymwneud â pholisi sy'n disgyn y tu allan i'r newidiadau Diwygio Canfas arfaethedig, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu nodi a'u hystyried ymhellach fel rhan o'r Prosiect Gwella Cofrestru.

4. Crynodeb o Adroddiad y Comisiwn Etholiadol

Mae'n ddyletswydd ar y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, o dan Ddeddf Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol 2013, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, i ymgynghori'n ffurfiol â'r EC ar unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r canfas blynyddol. Mae'n ofynnol ymgynghori gyda'r EC am dri mis a rhedodd yr ymgynghoriad o'r 28 Mawrth tan 28 Mehefin.

Yn ei dro, mae'n ofynnol i'r EC ddweud i ba raddau y mae'n ystyried y bydd y cynlluniau'n cwrdd ag amcanion y canfas – sef cynorthwyo swyddogion ERO i gadarnhau enwau a chyfeiriadau pobl nad ydynt wedi cofrestru ar gofrestr ond sydd â hawl i gael eu cofrestru, a phobl sydd wedi

cofrestru ar gofrestr ond nad oes ganddynt hawl i gael eu cofrestru. Mae'n ofynnol i'r EC hefyd adrodd ar haeddiannau'r canfas presennol ac ar ddulliau eraill o gwrdd ag amcanion y canfas.

Ysgrifennodd Bob Posner, Prif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol, at y Gweinidog dros y Cyfansoddiad yn amgáu ymateb ffurfiol yr EC⁴. At ei gilydd, canfyddiad yr EC oedd:

'Dylai'r cynigion i ddiwygio'r canfas greu trefn fwy effeithlon fel bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol (ERO) yn gallu canolbwyntio eu hadnoddau prin ar yr elfennau o'u gwaith lle mae'r angen mwyaf gan felly gwrdd yn well ag amcanion y canfas.'

Daeth yr EC hefyd i'r casgliad bod diwygio'r canfas blynyddol yn creu sylfaen gref ar gyfer diwygio pellach i foderneiddio'r broses cofrestru etholiadol.

Yn ei adroddiad mae'r EC yn gwneud nifer o fân awgrymiadau technegol ar gyfer drafftio'r SI fydd yn cael sylw gan swyddogion ar y ddwy ochr y tu allan i'r ymateb hwn. Ar wahân i'r rhain, mae'r EC yn gwneud nifer o fân argymhellion ynghylch cynigion y Llywodraethau. Ond nid yw'r un ohonynt yn gofyn newid y polisi diwygio canfas ehangach.

Mae'r EC yn cydnabod bod y dystiolaeth ar gywirdeb y data a gedwir yn warws ddata'r DWP yn awgrymu bod y data'n gynhwysfawr ac ar y cyfan yn gywir, ac ar y sail yma'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ei fod yn addas ar gyfer y broses cydweddu data. Mae'r EC hefyd yn nodi y gallai setiau data mwy cywir fyth fod ar gael yn y dyfodol. Fodd bynnag, lleisiodd yr EC bryderon nad yw'r SI wedi'i ddrafftio fel y gellir defnyddio'r setiau data hyn yn y dyfodol. O ystyried nad yw'r setiau data hyn wedi eu hadnabod eto, nid yw'n bosib eu nodweddu mewn deddfwriaeth yn ddigon eglur a sicr ar hyn o bryd. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i ystyried a ellir defnyddio unrhyw setiau data eraill fel rhan o'r broses cydweddu data, a gallwn ddiwygio'r SI fel bo angen drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Mae hefyd yn werth nodi bod y data a gedwir yn warws ddata'r DWP hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y broses o ddilysu ceisiadau i gofrestru i bleidleisio o dan y system Cofrestru Etholiadol Unigol, ac felly mae'n debyg y byddai unrhyw newid yn nefnydd y data yn warws y DWP yn y dyfodol yn gorfod cael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth arall.

Fel y dywedwn uchod, yn ogystal â chanlyniadau cydweddu â data cenedlaethol, bydd swyddogion ERO yn gallu ystyried unrhyw ddata lleol ganddynt wrth benderfynu a ddylai eiddo fynd i lawr Llwybr 1. Medrant gasglu'r data hwn o dan eu pwerau presennol yn Rheoliad 23, 35 neu 35A o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 neu Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001. Er mwyn eglurder, mae'r EC yn argymhell y dylai'r SI nodi hyn yn glir ar ei glawr. Fodd bynnag fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd, bydd swyddogion ERO yn ymwybodol o'u pwerau presennol o gofio eu bod yn dibynnu arnynt i gyflawni eu dyletswyddau cofrestru ehangach. Hefyd, mae cyfeiriadau penodol at bwerau yn y ddeddfwriaeth bresennol yn golygu, pe gwneid unrhyw newid yn y dyfodol i'r rheoliadau eraill sy'n cynnwys y pwerau casglu gwybodaeth hyn, byddai hefyd angen diwygio'r rheoliadau sy'n cael eu diwygio gan y SI hwn o ganlyniad. Am y rhesymau hyn ni chredwn fod angen ail-ddatgan, ar glawr y SI, y gwahanol bwerau casglu gwybodaeth sydd gan swyddogion ERO eisoes.

⁴ <https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/our-views-and-research/responses-consultations/our-report-uk-governments-draft-statutory-instrument-reform-annual-canvass>

Mae ymateb yr EC hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw bod data lleol o ansawdd digon da ac yn argymhell cyhoeddi canllawiau clir fel bod swyddogion ERO yn gallu adnabod a defnyddio setiau data addas yn gywir. Fel yn yr ymateb i Gwestiwn 3 uchod, bydd Swyddfa'r Cabinet yn gweithio gyda'r EC i gyhoeddi canllawiau atodol ar beth ddylai swyddogion ERO ei ystyried wrth benderfynu a yw ffynonellau data lleol o safon ddigon cywir neu beidio.

Derbyniwn hefyd y bydd llwyddiant darpariaethau'r diwygiadau canfasio'n dibynnu ar reoli effeithiol a chyfathrebu agos rhwng yr holl bartneriaid gan gynnwys cyflenwyr EMS, y DWP, Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Bydd y tair Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd i ddarparu canfas blynyddol addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

5. Crynodeb o Ymateb Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Rhaid i'r Gweinidog hefyd, o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ymgynghori gyda'r ICO. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhagnodi am ba hyd y dylid ymgynghori gyda'r ICO, a rheddodd o'r 30 Mai tan 27 Mehefin, gan ganolbwyntio'n benodol ar y darpariaethau fydd yn awdurdodi neu'n gofyn bod person yn datgelu gwybodaeth i berson arall i bwrpas y broses cydweddu data, ac ar y drosedd newydd am gamddefnyddio data yn ystod y broses cydweddu data.

Mewn llythyr at y Gweinidog dros y Cyfansoddiad, fel hyn y dywedodd y Comisiynydd Gwybodaeth, Elizabeth Denham CBE:

'Rydyn ni'n fodlon bod y SI drafft yn adlewyrchu amcanion y prosiect yn gywir ac wedi'i gyfyngu'n gywir o ran sgôp i ddarparu ar gyfer Diwygio'r Canfas...Hyd yma mae Swyddfa'r Cabinet wedi pwysu a mesur risgiau a manteision y cynllun newydd, wedi ystyried yr angen amdano a pha mor gymesur ydyw, ac wedi ceisio lliniaru'r risgiau sydd wedi eu nodi.'

Casglodd ei llythyr hefyd fod 'sail addas a chyfreithlon wedi ei hadnabod, ar sail tystiolaeth' ac 'o ran y drosedd newydd, barn fy swyddfa yw nad yw'n codi unrhyw fater diogelu data newydd na sylweddol'.

6. Y Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ill tair yn awr yn mynd ati i gyflwyno deddfwriaeth i weithredu'r polisi uchod ar draws Prydain. Rhoddir y polisi llawn yn y Datganiad Polisi a gyhoeddir gyda'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Y bwriad yw cael yr holl ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ei lle erbyn dechrau Ionawr 2020 yn barod i ddefnyddio'r system newydd gyda'r canfas blynyddol nesaf, fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2020. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r gymuned etholiadol i sicrhau y cyflwynir y canfas diwygiedig yn llyfn a llwyddiannus.